# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)19-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 23 Mehefin 2009

**Amser:** 8.30

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)18-08 (cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 16 Mehefin 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan na chafwyd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)19-09(p1)**

3.1 Dywedodd y Llywydd ei fod wedi cael ei hysbysu o dan Reol Sefydlog 7.50 y byddai'r Dirprwy Brif Weinidog, yn absenoldeb y Prif Weinidog, yn ateb cwestiynau ar ei ran.

3.2 Nododd y Pwyllgor na fyddai'r cyfnod pleidleisio yn digwydd cyn 5pm ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.3 Nododd y Pwyllgor drefn y busnes ar gyfer 23 a 24 Mehefin 2009.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)19-09(p2)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf.

**Amserlen Busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf - BC(3)19-09(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i amserlennu dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar Leihau Allyriadau Carbon wrth Gynhyrchu Ynni ar 15 Gorffennaf.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1: Adroddiadau ar Fesurau a gynigir gan bwyllgorau - BC(3)19-09(p4)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes lythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 ynglŷn â'r adroddiadau ar ddeddfwriaeth a gynigir

gan bwyllgorau.

4.2 Nodwyd y byddai Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 yn dechrau ei drafodion Cyfnod 2 ar Fesur Arfaethedig Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn hir ac, oherwydd i'r Mesur gael ei gynnig gan bwyllgor, ni fyddai'n ofynnol cynnal gwaith craffu Cyfnod 1 o dan y Rheolau Sefydlog.

4.3 Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'n ddefnyddiol yn y dyfodol pe gallai pwyllgorau gyflwyno adroddiad ynglŷn â'u cynigion, gan y byddai'n llunio sail i'r ddadl yng Nghyfnod 1 a'r ystyriaethau yng Nghyfnod 2.

**5. Pwyllgorau**

**Cais gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i ymweld â'r Eisteddfod Ryngwladol - BC(3)19-09(p5)**

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y cais gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i ymweld â'r Eisteddfod Ryngwladol rhwng 8 a 9 Gorffennaf.

**Cais gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd i gynnal cyfarfod ffurfiol y tu allan i'r Cynulliad yn Neuadd Dinas Caerdydd - BC(3)19-09(p6)**

5.2 Nododd y Pwyllgor fod y cais gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd i gynnal cyfarfod ffurfiol yn Neuadd y Ddinas ar 15 Gorffennaf wedi cael ei dynnu'n ôl ac y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal yn y Senedd.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**